# Y Grant Cymorth Tai:
# Fframwaith Canlyniadau:

## Pecyn hyfforddiant ar gyfer staff newydd

# Pwrpas y Grant Cymorth Tai

**Rhaglen grant ymyrraeth gynnar i gefnogi gweithgarwch, sy’n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu’n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a’i gadw.**

# Fframwaith Canlyniadau’r GCT

**Mae Fframwaith Canlyniadau’r Grant Cymorth Tai ar gael:**

[Fframwaith canlyniadau’r Grant Cymorth Tai | LLYW.CYMRU]

**Dylai awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau hefyd ddarllen y canllawiau a luniwyd i’w helpu i gwblhau’r data monitro i’w dychwelyd i Lywodraeth Cymru.**

**Gofynnwch arweinydd y GCT am gopi o’r canllawiau.**

# Pam rydym yn casglu canlyniadau'r GCT?

- I gasglu tystiolaeth gyson
- I ddangos y gwaith da sy'n digwydd
- I ddangos effeithiolrwydd y rhaglen grant a helpu i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol

# Y gofynion adrodd ar gyfer Llywodraeth Cymru

**Dau gyfnod adrodd pan fydd gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno un ffurflen ddata i Lywodraeth Cymru**

- **Cyfnod 1: 1 Ebrill – 30 Medi**
- **Cyfnod 2: 1 Hydref – 31 Mawrth**

**Darparwyr gwasanaeth: bydd awdurdodau lleol yn gosod y dyddiad cau a'r trefniadau ar gyfer pryd y bydd angen i chi gyflwyno eich ffurflenni i'r awdurdod lleol.**

**Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am y manylion hyn.**

# Prif egwyddorion y fframwaith canlyniadau

4 Prif Ganlyniad

7 Canlyniad Eilaidd

Yn cofnodi cymorth tymor byr / untro

Graddio ymatebion ar gyfer Canlyniadau Eilaidd

# Prif Ganlyniadau (PG):
# Tystiolaeth ar gyfer prif bwrpas y GCT

## PG 1

Mae pobl wedi gallu ymgysylltu â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai (cyngor, gwybodaeth a cyngor) ac maent yn fwy gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt a/neu'n gwybod ble i fynd am gymorth

## PG 2

Mae pobl wedi gallu cael mynediad at lety brys / dros dro neu lety â chymorth tymor byr

## PG 3

Mae pobl yn gallu cael  gafael a'i gynnal mewn cartref sefydlog addas

## PO 4

Mae pobl yn gallu rheoli eu llety/cartref presennol sy'n eu hatal rhag dod yn ddigartref neu rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus mwy costus (e.e. gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol)

# Prif Ganlyniadau (PG): Tystiolaeth ar gyfer prif bwrpas y GCT

**Cyfeiriwch at dudalennau 4 – 7 o'r Fframwaith Canlyniadau**

Cyflawni un PG **pob cyfnod**

Gellir hefyd gyflawni **PG1 yn ogystal ag un PG arall** os yw unigolyn yn dychwelyd/ ail-gyflwyno ar ôl gadael gwasanaeth (**gweler y sleid nesaf**)

**Gorfodol**

Yn cynnwys mathau o ymyriadau / gweithgareddau / gwasanaethau sy'n berthnasol i bob canlyniad: **ENGHREIFFTIAU YN UNIG** ac nid yw'n rhestr gyflawn

Asesu pa PG sy'n berthnasol yn seiliedig ar ffaith (sefyllfa dai y Defnyddiwr Gwasanaeth)


Mae gan pob PG set o Ddangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth

**Ymateb Ydw / Nac ydw**

**Ni fydd angen bodloni'r holl Ddangosyddion**

Cyflawni PG drwy gofnodi 'Ydw' i o leiaf **un** o'r Dangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth

***Darlun Canlyniadau Cynradd***



# Canlyniadau Eilaidd (CE): Tystiolaeth ar gyfer effeithiau ehangach y GCT

- CE1: Mae gan bobl berthynas gadarnhaol ac iach â phobl yn eu bywydau
- CE2: Mae pobl yn teimlo'n ddiogel
- CE3: Mae gan bobl annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd
- CE4: Mae pobl yn ymwneud â rhywbeth sy’n ystyrlon iddynt
- CE5: Mae iechyd corfforol pobl yn dda
- CE6: Mae pobl yn rheoli effaith eu dibyniaeth
- CE7: Mae iechyd meddwl a lles pobl yn dda

# Canlyniadau Eilaidd (CE):
# Tystiolaeth ar gyfer effeithiau ehangach y grant

**Cyfeiriwch at dudalennau 8 – 14 o'r Fframwaith Canlyniadau**

Gellir cyflawni **mwy nag un CE** yn ystod y cyfnod adrodd

Dylai'r CE a gyflawnir gyd-fynd â'r math o gymorth a roddir

## Canlyniadau Hyblyg / Wedi'u Teilwra

Mathau o ymyriadau / gweithgareddau / gwasanaethau sy'n berthnasol i bob canlyniad: **ENGHREIFFTIAU YN UNIG** ac nid yw'n rhestr gyflawn

Ni fydd pob CE yn berthnasol i bob Defnyddiwr Gwasanaeth

Mae gan pob CE set o Ddangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth

**Nid oes angen i bob un o Ddangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth fod yn gymwys** i gyflawni CE

Defnyddio'r graddio ymatebion i ddal profiad yr unigolyn

Yn seiliedig ar sgwrs ddwyffordd gyda'r Defnyddiwr Gwasanaeth – yn oddrychol eu natur

# Graddio ymatebion ar gyfer *canlyniadau Eilaidd yn unig*

| Graddfa | Disgrifiad |
|---|---|
| 0 | 'Ddim yn berthnasol' – nid yw'r dangosydd defnyddiwr gwasanaeth yn berthnasol |
| 1 | 'Byth' – Nid yw byth yn digwydd |
| 2 | 'Yn anaml' – ar ychydig iawn o achlysuron, bron byth |
| 3 | 'Ar adegau' – weithiau, o bryd i'w gilydd |
| 4 | 'Yn aml' – yn rheolaidd neu lawer o weithiau |
| 5 | ‘Bron yr holl amser' – yn gyson, bob dydd |

# Cofnodi'r Prif Ganlyniadau a'r Canlyniadau Eilaidd

## Cofnodi'r Prif Ganlyniadau

- Yn seiliedig ar ganlyniad yr unigolyn a gyflawnwyd **yn y cyfnod adrodd 6 mis (*neu ar y dyddiad cafodd cynnydd yr unigolyn ei adolygu ddiwethaf os yw cyn y cyfnod o 6 mis*)**
- ***Ymateb Ydw neu Nac ydw*** i'r Dangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth – dibynnu pa rai sy'n berthnasol

## Cofnodi'r Canlyniadau Eilaidd

- Defnyddio'r graddfa ymatebion
- Canolbwyntio ar y **disgrifiad** yn hytrach nag ar rif
- Gofyn Defnyddwyr y Gwasanaeth sut maen nhw wedi bod yn teimlo ***yn ddiweddar*** yn hytrach na thros gyfnod penodol o amser

# Enghraifft o sut i gofnodi Prif Ganlyniad

***Adeg y pwynt adrodd chwe mis***

*Os yw person wedi symud o fod yn cysgu allan a derbyn allgymorth i lety â chymorth tymor byr a'i fod yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai*

→

**Cofnodir Prif Ganlyniad 2**

# Enghraifft o sut i gofnodi Prif Ganlyniad

***Adeg y pwynt adrodd chwe mis***

*Os yw person wedi bod yn derbyn cymorth i gael a chadw cartref/llety sefydlog ac iddo 'adael' cymorth wedi hynny gan i'r angen am gymorth gael ei ddiwallu ond iddo ddychwelyd yn yr* ***un*** *cyfnod i gael cymorth untro*

→

**Cofnodir Prif Ganlyniad 3 a Phrif Ganlyniad 1**

# Enghraifft o sut i gofnodi Prif Ganlyniad

***Adeg y pwynt adrodd chwe mis***

*Os yw person wedi symud o lety brys / dros dro i lety mwy sefydlog a'i fod yn derbyn cymorth cysylltiedig â thai*

→

**Cofnodir Prif Ganlyniad 3**

# Offeryn monitro
# (Taenlen ‘excel’ Llywodraeth Cymru)

**Mae Llywodraeth Cymru wedi creu offeryn Excel i gynorthwyo awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau i gofnodi canlyniadau ar gyfer y Fframwaith Canlyniadau newydd.**

**Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn ymgorffori’r offeryn yn eu systemau casglu data presennol ac yn cynghori darparwyr o’r trefniadau ar gyfer casglu canlyniadau gan ddarparwyr.**

**Gall hyn edrych ychydig yn wahanol i offeryn excel Llywodraeth Cymru (a ddangosir ar sleidiau 21 – 30) yn ddibynnol ar yr offeryn/ cronfa ddata a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol.**

# Offeryn monitro (Taenlen excel Llywodraeth Cymru)

**HAFAN/'HOME'**
**Awdurdodau lleol i gwblhau**

**TABIAU yn yr offeryn**

**RHESTR O'R CWYMPLENNI/ 'DROP-DOWN LISTS'**
Gwybodaeth yn unig

**ARWEINIAD/ 'GUIDANCE'**
Gwybodaeth yn unig– esbonio'r data sydd angen ei gofnodi

**CRYNO/ 'SUMMARY'**
Bydd yr holl daenlenni cryno yn cyfrif yn awtomatig y rhifau sydd wedi'u cofnodi ar y tudalen mewnbwn 'Mewnbwn – Canlyniadau'

**MEWNBWN – CANLYNIADAU/ 'INPUT – OUTCOMES'**
**Bydd y Darparwr yn mewnbynnu data ar y ddalen hon**

# Cofnodi’r data yn yr offeryn Monitro

## Awdurdodau lleol

**Darparwyr Gwasanaeth:** mewnbynnu data i’r dudalen Fewnbwn (gall edrych yn wahanol i offeryn excel LLC, yn dibynnu ar yr offeryn a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol)

**Awdurdodau lleol:** cyfeiriwch at y canllawiau am wybodaeth fanwl

Coladu a chyfuno’r holl ddata gan ddarparwyr gwasanaeth


Mewnbynnu’r data gan ddarparwyr gwasanaeth i’r dudalen fewnbwn

Anfon **un ffurflen**: tudalen cartref a chrynodeb i Lywodraeth Cymru (pob cyfnod)

Nid oes angen i Lywodraeth Cymru weld y tudalennau mewnbwn a gwblheir gan y darparwyr

**Mae’r sleidiau canlynol yn cynnwys sgrinluniau o offeryn monitro ‘Excel’ Llywodraeth Cymru.**

**Dylech hefyd gyfeirio at y canllawiau sydd yn cynnwys wybodaeth fanwl ar sut i gwblhau offeryn monitro Excel Llywodraeth Cymru.**




# TUDALEN CARTREF


Awdurdodau lleol i gwblhau

## Nodiadau cyfarwyddyd

| | |
|---|---|
| Pwy ddylid ei nodi ar y ffurflen | **Defnyddwyr y Gwasanaeth ar ddechrau cymorth**<br>• Yn cynnwys a yw canlyniad yn berthnasol / rhesymau dros beidio â chyflawni<br>• Peidiwch â nodi adolygiad / dyddiad gorffen y cymorth<br>• Statws Digartrefedd ar Bwynt Mynediad i'w cwbwlhau<br><br>**Defnyddwyr Gwasanaeth sydd wedi cael Adolygiad Cynllun Cymorth**<br>• Yn cynnwys a yw canlyniad yn berthnasol / rhesymau dros beidio â chyflawni<br>• Peidiwch â nodi dyddiad gorffen y cymorth<br>• Statws Digartrefedd ar Bwynt Mynediad i'w cwbwlhau<br><br>**Defnyddwyr gwasanaethau y mae eu cefnogaeth wedi dod i ben**<br>• Yn Cynnwys a yw canlyniad yn berthnasol / rhesymau dros beidio â chyflawni<br>• Cynllun i'r cymorth dod i ben/rheswm daeth i ben i'w cwbwlhau<br>• Statws Digartrefedd ar Bwynt Mynediad i'w cwbwlhau/ Gadael |
| Rhyw | Rhowch naill ai M (Gwrywaidd), F (Benywaidd), N (Anneuaidd), T (Trawsryweddol), I (Rhyngrywiol) neu P (Well gen i beidio â dweud) |
| Cyfeirnod Defnyddiwr Gwasanaeth *(Colofn C-F)* | Cofnodwch<br>• 3 llythyren gyntaf o'r cyfenw (C)<br>• Dyddiad Geni *(D)* – Fformat dd/mm/bb<br>• Rhyw *(E)*<br>Bydd hyn yn poblogi'r Cyfeirnod Defnyddiwr Gwasanaeth (F) yn awtomatig |
| Dyddiad dechrau'r gymorth *(Colofn I)* | Cwblhewch yn y fformat dd/mm/bb |
| Dyddiad Adolygu *(Colofn J)* | Cwblhewch yn y fformat dd/mm/bb |
| Dyddiad daeth y cymorth i ben *(Colofn K)* | Dim ond un golofn sydd i'w chwblhau (mae angen cofnod ar wahân os oes gan defnyddiwr gwasanaeth dyddiad adolygu ac cymorth yn dod i ben) |
| Canlyniadau – Perthnasol | Sicrhewch fod hyn wedi'i gwblhau ar gyfer pob cofnod - Rhowch Ie neu Na o'r rhestr ostwng ar gyfer Prif Ganlyniadau |
| Ydy'r gymorth wedi dod i ben? *(Colofn BV)* / Rheswm dros adael/daeth y cymorth i ben *(Column BW)* | Dim ond angen ei gyflawni os yw'r gefnogaeth wedi dod i ben (Sicrhewch fod colofn M wedi'i cwbwlhau) |
| Statws digartrefedd ar fynediad i gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r GCT *(Colofn L)* | Dylai hyn gael ei gwblhau ar gyfer pob cofnod. Yr opsiynau yw:<br>• Yn ddigartref<br>• Bygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod ac angen cymorth i aros yn ei gartref ei hun<br>• Ddim Mewn bygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod<br>• Angen cymorth i aros yn ei gartref eu hunain/llety â chymorth parhaol<br>• Mewn llety dros dro |

# TUDALEN ARWEINIAD

**Dylai hyn helpu gyda chwblhau’r offeryn excel gan nodi pa ddata sydd angen ei gofnodi ar y daenlen.**





# TUDALEN CANLYNIADAU CRYNO

**Nid oes angen mewnbynnu data.**

Bydd yn cyfrifo'r rhifau a gofnodwyd ar y dudalen mewnbwn (Mewnbwn – Canlyniadau) yn awtomatig.

Mae celloedd wedi'u cloi.




**Y Grant Cefnogi Tai - Rhesymau dros adael yn ystod y cyfnod**

| Prif reswm dros adael | Nifer o gadaelwyr | |
|---|---|---|
| Mae anghenion cymorth cysylltiedig â thai wedi eu diwallu | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Symud i mewn i lety cynaliadwy (ac nid oes angen cymorth arnynt mwyach) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Diffyg ymgysylltu â chefnogaeth | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Nid oes angen cymorth mwyach | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Symudwyd o'r ardal | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Mynd i mewn i garchar/sefydliad troseddwyr ifanc | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Symudwyd i wasanaeth gofal neu iechyd mwy hirdymor (e.e. cartref gofal/gofal yn y cartref/ysbyty/hosbis) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Symudwyd i fyw â chymorth, gofal ychwanegol neu dai cysgodol (ac nid oes angen cymorth cysylltiedig â thai mwyach) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Mynd i mewn i wasanaethau iechyd arbenigol (e.e. Uned Iechyd Meddwl/Uned Detox) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Fu farw | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Trosglwyddo i asiantaeth GCT arall (ond eisoes yn derbyn cymroth cysylltiedig â thai) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Arall | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| N/A (dim yn berthnasol i wasanaethau untro) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Cyfanswm nifer o gadaelwyr (dim yn cynnwys defnyddwyr wasanaethau untro) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Cyfanswm nifer o gadaelwyr (dim yn cynnwys trosglwyddiadau i asiantaeth GCT arall) | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |

# TUDALEN RHESYMAU CRYNO AM ADAEL

**Nid oes angen mewnbynnu data.**

Bydd yn cyfrifo'r rhifau a gofnodwyd ar y dudalen mewnbwn (Mewnbwn – Canlyniadau) yn awtomatig.

Mae celloedd wedi'u cloi

Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai_ Monitro dychwelyd data 2023-24 - Read-Only

**Y Grant Cefnogi Tai - Statws digartrefedd pobl a gefnogir yn ystod y cyfnod**


| Statws | Statws digartrefedd ar fynediad i gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r GCT | Statws digartrefedd ar adael cefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r HSG | |
|---|---|---|---|
| Digartref | 0 | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Mewn bygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod ac Angen cefnogaeth i aros yn ei gartref ei hun | 0 | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Ddim mewn bygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod | 0 | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Angen cymorth i aros yn ei gartref eu hunain/llety â chymorth parhaol | 0 | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Mewn llety dros dro | 0 | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Cadw cartref sefydlog yn annibynnol (6mis +) | | 0 | *Cyfrifiad awtomatig* |
| Cyfanswm | **0** | **0** | *Cyfrifiad awtomatig* |

HAFAN | ARWEINIAD | Canlyniadau Cryno | Rhesymau Cryno dros adael | **Statws Digartrefedd Cryno** | MEWNBWN

# TUDALEN STATWS DIGARTREFEDD CRYNO

- **Nid oes angen mewnbynnu data.**
- Bydd yn cyfrifo’r rhifau a gofnodwyd ar y dudalen mewnbwn (Mewnbwn – Canlyniadau) yn awtomatig.
- Mae celloedd wedi’u cloi

# TUDALEN MEWNBWN – CANLYNIADAU



# TUDALEN MEWNBWN – CANLYNIADAU

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Darparwr | Tair llythyren gyntaf o gyfenw | Dyddiad geni dd/mm/bb | Rhyw | Rhif Cyfeirnod Defnyddiwr Gwasanaeth | Awdurdod Lleol | Math o brosiect GCT | Dyddiad dechrau'r gymorth dd/mm/bb | Dyddiad adolygu dd/mm/bb | Dyddiad daeth y gymorth i ben dd/mm/bb | Statws digartrefedd ar fynediad i gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r GCT | Statws digartrefedd ar adael cefnogaeth sy'n gysylltiedig â GCT |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |

Darparwyr i gofnodi'r data (***fel a nodwyd eisoes, gall yr offeryn a ddefnyddir gan eich ALl edrych yn wahanol i offeryn excel LIC)***.

Cwblhau y tabiau llwyd ar gyfer pob Defnyddiwr Gwasanaeth.

Rhestr cwymplen

Bydd **Colofn Rhif Cyfeirio Defnyddiwr Gwasanaeth** yn cynhyrchu yn awtomatig trwy gofnodi data i'r colofnau Tair llythyren o gyfenw (C) Dyddiad geni dd/mm/bb (D) a Rhyw (E)

# TUDALEN MEWNBWN – CANLYNIADAU
# Prif Ganlyniadau (PG)

## 4 Prif Ganlyniad ac
## eu Dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaeth isod. Enghraifft ar gyfer PG1 a PG2 yn unig

| PRIF GANLYNIAD 1: Mae pobl wedi gallu ymgysylltu â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai (cyngor, gwybodaeth a chymorth) ac maent yn fwy gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt a/neu wybod ble i fynd am gymorth | | | | | | PRIF GANLYNIAD 2: Mae pobl wedi gallu cael mynediad at lety brys / dros dro neu lety â chymorth tymor byr | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf wedi cael gwybod am fy hawliau o ran tai a'r opsiynau tai sydd ar gael i mi | Rwyf wedi cael gwybod am y cymorth sy'n gysylltiedig â thai sydd ar gael i mi | Rwyf wedi cael gwybod am y budd-daliadau/cymorth ariannol y mae gennyf hawl iddynt a sut i wneud cais amdanynt | Rwy'n gwybod lle i fynd am gymorth os oes angen | Rwyf wedi cael fy nghyfeirio at gymorth/cefnogaeth bellach os oes angen | Rwy'n derbyn cymorth sy'n gysylltiedig â thai er mwyn fy helpu i chwilio am gartref mwy parhaol/sefydlog | Rwyf mewn llety brys/dros dro tra byddaf yn cael cymorth i'm helpu i chwilio am gartref mwy parhaol/sefydlog parhaol/sefydlog | Rwyf mewn llety â chymorth tymor byr tra byddaf yn cael cymorth i'm helpu i chwilio am gartref sy'n mwy parhaol/sefydlog |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

- O'r rhestr cwmplen, cofnodwch Ydw/Nac Ydw o dan pob Dangosydd defnyddwyr gwasanaeth. Nid oes angen i bob un o Ddangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth fod yn gymwys.
- Cyflawni'r PG wrth gofnodi '**Ydw' i un** o'r Dangosyddion Defnyddwyr y Gwasanaeth..
- Cofnodi person **unwaith** yn unig (un rhes i bob unigolyn) yn ystod y cyfnod adrodd.
- Os bydd yr un person yn dychwelyd i gael mynediad at wasanaethau cymorth **'untro'** sy'n gysylltiedig â thai (PG1) yn ystpd y cyfnod adrodd ac eisoes wedi'u cofnodi ar y daenlen gan gyflanwi nail ai PG 2,3 neu 4, - cofnodwch y record ar yr un rhes.

# TUDALEN MEWNBWN – CANLYNIADAU
## Canlyniadau Eilaidd (CE)

| (OS YN BERTHASOL) CANLYNIAD EILAIDD 1: Mae gan bobl berthynas gadarnhaol ac iach â phobl yn eu bywydau | | | | | (OS YN BERTHASOL) CANLYNIAD EILAIDD 2: Mae pobl yn teimlo'n ddiogel | | | (OS YN BERTHASOL) CANLYNIAD EILAIDD 3: Mae gan bobl annibyniaeth a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd | | | | (OS YN BERTHASOL) CANLYNIAD EILAIDD 4: Engaged in activity | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gen i berthynas gadarnhaol a/neu iach gyda fy nheulu a/neu fy mhlentyn/fy mhlant | Mae gen i berthynas gadarnhaol a/neu iach gyda fy ffrindiau a/neu gymheiriaid | Mae gen i berthynas gadarnhaol a/neu iach gyda'r bobl yr wyf yn byw gyda hwy | Dydw i ddim yn teimlo'n ynysig | Rwy'n teimlo cysylltiad â'm cymuned leol | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghartref/llety rhag unrhyw niwed corfforol | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghartref/llety rhag unrhyw niwed emosiynol | Nid wyf yn effeithio'n negyddol ar les emosiynol na chorfforol pobl eraill | Rwy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â chymorth | Rwy'n teimlo fy mod yn rheoli fy mywyd bob dydd | Rwy'n gallu rheoli fy arian | Mae gen i'r sgiliau ymarferol i fyw'n annibynnol | Rwy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ystyrlon i mi ac sydd wedi cyfrannu at fy lles | Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi |
| | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |

- 7 Canlyniadau Eilaidd (SO) a'u Dangosyddion Defnyddwyr Gwasanaeth oddi tano.
- Rhestr cwymplen gydag opsiynau 0 – 5 (gweler sleid 12 ar gyfer y graddfa ymatebion). Cofnodwch 0 ar gyfer canlyniadau sydd ddim yn berthnasol.
- Cofnodi person **unwaith** yn unig (un rhes i bob unigolyn) – er gallant gyflawni mwy nag un canlyniad eilaidd yn yr un rhes.
- Peidiwch cofnodi CE ar gyfer unigolion sy'n derbyn cymorth tymor byr neu untro (pobl sy'n dychwelyd) ac sy'n cyflawni PG1, gan na fydd ganddynt gynllun cymorth yn ei le a heb gael amser i adolygu eu cynnydd a chyflawni CE. Fodd bynnag, lle mae CE wedi bod yn bosibl i'w gyflawni ar gyfer yr unigolion hyn yna dylid cofnodi hyn.
- **CE2: dylid cofnodi'r dangosydd hwn os yw'n berthnasol ac yn briodol yn unig (cyfeiriwch at y canllawiau).**

# TUDALEN MEWNBWN – CANLYNIADAU

| | |
|---|---|
| | |
| **Ydy'r cymorth wedi dod i ben?:** (dim ond cwbwlhau wedi'r cymorth orffen) | **Rheswm dros adael/dod â'r cymorth i ben** (dim ond cwbwlhau wedi'r cymorth orffen) |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Ydy'r Cymorth wedi dod i ben?**

Dylid cwblhau pan fydd y cymorth wedi dod i ben. Rhestr cwymplen gydag opsiwn Ydw/Nac ydw.

Bydd data a gofnodwyd yn y golofn yn ymddangos yn awtomatig ar dudalen 'Rhesymau cryno dros adael'.

**Rheswm dros adael / Dod â'r Cymorth i ben**

Dylid cwblhau pan fydd y cymorth wedi dod i ben.

Rhestr cwymplen gydag opsiynau o resymau dros adael. Dewiswch yr un sydd fwyaf perthnasol i'r unigolyn. Cyfeiriwch at y canllawiau am ddiffiniadau manwl o'r rhesymau dros adael.

Bydd data a gofnodwyd yn y golofn yn ymddangos yn awtomatig ar dudalen 'Rhesymau cryno dros adael'.

**Fel y nodwyd ar Sleid 17 – awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am goladu a chyfuno’r holl ddata gan ddarparwyr a’i gyflwyno mewn un ffurflen yn ôl i Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddau gyfnod adrodd.**